

RYDYM YN **recriwtio**

UCHAFBWYNTIAU Y SWYDD





Gweinyddwr Hamdden

Gwybodaeth Hanfodol

Cyflog : £25,185

Oriau : 37 awr yr wythnos

Contract: Parhaol

Lleoliad: Canolfan Hamdden Huw Jones Corwen

Am y Swydd

Fel Cynorthwydd Hamdden, byddwch yn sicrhau bod gan ein cwsmeriaid fynediad at gyfleusterau glân, diogel a chroesawgar.

Mae achub bywyd yn rhan greiddiol o'r rôl, felly bydd angen i chi roi sylw manwl i bawb sy'n defnyddio'r pwll, i wneud yn siŵr bod pawb yn ddiogel bob amser ac yn dilyn rheolau'r pwll.

Rydym yn ymfalchïo yn ein cyfleusterau a'r amgylchedd yr ydym yn ei gynnig i'n cwsmeriaid, felly byddem yn disgwyl i chi ymfalchïo yn y safle, gan sicrhau ei fod yn lân, yn daclus ac yn ddiogel i bawb ei ddefnyddio bob amser.

Mae Canolfan Hamdden Huw Jones Corwen ar agor 7 diwrnod yr wythnos, felly byddwch yn dilyn patrwm sifft sy'n cynnwys sifftiau yn ystod y dydd, gyda'r nos ac ar benwythnosau.

Mae'r dogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English



Gweinyddwr Hamdden

Amdanoch Chi

Rydym yn edrych am unigolyn hyderus a chyfeillgar, gyda sgiliau pobl rhagorol a sylw gwych i fanylion.

Rydym yn hoffi datblygu ein staff, felly mae'r awydd i ddysgu a datblygu yn hanfodol ar gyfer y rôl hon. Byddwn yn eich cefnogi bob cam o'r ffordd gyda hyfforddiant yn y swydd.

Yn ddelfrydol, bydd gennych eich cymhwyster NPLQ, fodd bynnag, byddwn yn darparu'r hyfforddiant a'r cymwysterau angenrheidiol i'r ymgeisydd cywir.

Mae ein cwsmeriaid yn hynod bwysig i ni, felly rydym angen rhywun sy'n gallu gwneud i bobl deimlo'n gyfforddus, ac sydd ag awydd i wneud yn siŵr bod pawb yn cael profiad gwych bob amser.

Mae'n bwysig iawn bod pawb yn ddiogel bob amser, felly bydd angen i chi fod yn hyderus wrth gymryd camau i atal unrhyw ymddygiad a allai fod yn risg i eraill, mewn modd cyfeillgar ond cadarn.

Os ydych chi'n berson cyfeillgar, brwdfrydig, gydag awydd gwirioneddol i helpu eraill, ac yn dymuno gweithio mewn Cwmni cyflym, hynod lwyddiannus, yna gallai hwn fod yn ffit perffaith i chi.



Gweinyddwr Hamdden

Amdanom ni

Trwy fuddsoddiad parhaus dros 12 mlynedd, mae HSDdCyf wedi datblygu portffolio o gyfleusterau sy'n arwain y sector, gan gynnwys 7 cyfleuster ffitrwydd premiwm, 7 darpariaeth bwyd a diod unigryw, 2 atyniad anhygoel a theatr syfrdanol â 1,000 o seddi.

Mae tîm HSDd yn dîm sefydledig, angerddol sy'n cael ei yrru, gyda diwylliant o berfformiad uchel a gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol. Mae ein llwyddiannau yn y gorffennol wedi ein harwain i ble'r ydym heddiw, gydag enw rhagorol yn ein holl gyfleusterau, a thîm gweithgar sy'n ffynnu ar y cwsmer yn cael y profiadau gorau posibl.

Rydyn ni'n gweithio i athroniaeth 'un tîm, un cyfrif banc' - rydyn ni i gyd yn un tîm, pa waeth ym mha safle rydych chi wedi'ch lleoli. Gyda'n gilydd rydyn ni i gyd yn cyfrannu at wneud HSDdCyf yn llwyddiannus

Ein Gwerthoedd



Uchelgais a Thwf



Ymddiriedolaeth ac Uniondeb



Rhagoriaeth a Gwydnwch



Balchder ac Angerdd



Buddion Staff

Mae ein gweithlu o'r pwys mwyaf i ni ac rydym wedi ymrwymo i gynorthwyo staff i sicrhau cydbwysedd cadarnhaol rhwng bywyd a gwaith. Mae gan holl weithwyr HSDd hawl i amrywiaeth o fudd-daliadau, gan gynnwys:

- Aelodaeth campfa staff HSDd gostyngedig
- Cyfleoedd dysgu a datblygu personol a phroffesiynol
- Gwyliau blynyddol yn dechrau ar 26 diwrnod + gwyliau banc
- Amrywiaeth o bolisiau teulu-gyfeillgar i gefnogi'ch cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith

Lleoliad: Canolfan Hamdden Huw Jones Corwen

Dyddiad Cau: 05/11/2025

Gwnewch gais drwy: ebostio eich CV i Pobl@hamddensirddinbych.co.uk